



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2016 i 31 Mawrth 2017

*"Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, gobeithiwn  
y bydd y byd yn ei wneud yfory – gweithredu yn fwy na  
geiriau yw'r gobaith ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol," Y Cenhedloedd Unedig*

**[Cenedlaethaurdyfodol.cymru](http://Cenedlaethaurdyfodol.cymru)**

# Adroddiad Perfformiad

## Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer 2016-17 yn nodi fy nghyflawniadau ers ymgymryd â'r swydd, fy nghyfrifon ariannol a'r gwaith y byddaf yn ei wneud dros y flwyddyn i ddod. Sefydlwyd rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio fy rôl fel un i:

*Hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy; yn benodol i weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt.*

*Ac at y diben hwnnw, monitro ac asesu i ba raddau y mae'r nodau llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu gwireddu.*

Mae datblygu cynaliadwy wedi bod yn rhan o'r agenda llunio polisi yng Nghymru ers tro, ond nid oes newid parhaol wedi'i gyflawni eto. Mae heriau o hyd wrth wneud y cysylltiadau rhwng amddiffyn ein planed a'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl yma nawr ac yn y dyfodol. Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi pwyslais o'r newydd, ac yn wir yn ei gwneud hi'n rheidrwydd cyfreithiol i ni wneud y cysylltiadau hynny a sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wneir heddiw yn amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw, yn ogystal â channoedd o grwpiau, sefydliadau ac unigolion eraill. Er mwyn ysgogi gwelliant go iawn tuag at gyflawni'r Gymru a garem, mae'n rhaid i ni goleddu ethos ac egwyddorion y Ddeddf a pheidio â'i ystyried yn ymarferiad cydymffurfio i dicio blychau, dyna fu fy neges allweddol.

Dylem groesawu arloesi a derbyn, wrth wneud hynny, bod rhaid i ni fod yn llai cyndyn o gymryd risgiau. Rhaid i'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus a'r rheiny sy'n eu harchwilio annog arfer o gymryd risgiau a reolir yn dda. I wneud y gorau o'n gwasanaethau cyhoeddus, nid yn unig y mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd, ond rhaid i ni feddwl gyda'n gilydd hefyd – mae hyn yn golygu ailfeddwl yn sylfaenol ynglŷn â'r modd y mae llunio polisi a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amgylchedd iawn i atal problemau rhag digwydd ac i hyrwyddo llesiant.

Pobl sy'n darparu'r atebion i lawer o'r heriau hyn, ac mae cymhwyso'r egwyddor cynnwys yn y Ddeddf mewn ffordd sy'n hwyluso gwell dealltwriaeth o'r bywydau y mae pobl yn eu byw a beth sy'n effeithio ar eu llesiant yn hanfodol i wireddu dyheadau eraill y Ddeddf.

Rwyf wedi cyfranogi mewn nifer o ddarnau gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi a herio cyrff cyhoeddus i weithredu'r ddeddfwriaeth yn briodol, ond rwyf wedi ymrwymo i hyrwyddo'r angen i ganolbwyntio ar y deilliannau a gyflawnir. Bydd eleni, a'r ddwy flynedd ddilynol wrth i gerrig milltir cyntaf amrywiol y Ddeddf gael eu gwireddu, yn hollbwysig o ran gosod y sylfeini ar gyfer y newid diwylliannol sydd ei angen. Rwy'n awyddus i gefnogi'r rheiny sydd eisiau gwneud y newid hwnnw ac nid wyf yn ofni herio'r rheiny nad ydynt am wneud. Rwy'n gobeithio, fodd bynnag, y bydd y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar ran pobl Cymru yr un mor benderfynol â minnau i sicrhau bod y penderfyniadau hynny yn addas i'n cenedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

**Sophie Howe**  
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

## **Beth wnaethom ni yn y Flwyddyn Gyntaf**

### **Gwrando ar bobl a'u cynnwys wrth gynllunio'r daith**

Mae cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn hanfodol i gyflawni newid hirbarhaol. Ochr yn ochr â hyn, mae dealltwriaeth o'r prif faterion a heriau yn wynebu'r rheiny sy'n ceisio gweithredu'r Ddeddf yn hollbwysig, ac felly fe ymrwymais i gyfarfod ag arweinwyr pob un o'r 44 corff cyhoeddus yn y chwe mis cyntaf er mwyn gwrandao o'r cychwyn ar y prif heriau a chyfleoedd fel y'u gwelir ganddynt hwy yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn ystod y chwe mis cyntaf, fe wnes i hefyd gyfarfod â gweithwyr proffesiynol llinell flaen a chynnal gweithdai cymunedol ledled Cymru. Rwyf wedi cyflawni rhyw 640 o ymglymiadau cyhoeddus yn bersonol yn fy mlwyddyn gyntaf, gan gynnwys prif areithiau neu gyflwyniadau mewn rhyw 80 o brif ddigwyddiadau, ac mae fy nhîm wedi ymgymryd â llawer mwy – yn hyrwyddo ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ac yn amlinellu'r her i gyrff y sector cyhoeddus i fabwysyiadau dulliau newydd o weithio. Rwyf wedi cynnal sesiynau gyda Chyfarwyddwyr Cynllunio, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Weithredwyr a Chadeiryddion Byrddau Iechyd, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. Rwyf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddogion cymorth o bob un o'r 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru. Yn y misoedd i ddod, byddaf yn ceisio cael sesiynau gyda phob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'm hymgysylltiad â nhw wrth iddynt ymgymryd â'u cynlluniau llesiant.

Hwn fu'r cam cyntaf pwysig tuag at feithrin perthnasoedd, sefydlu ymagwedd partneriaeth a dealltwriaeth well o'r daith sydd o'n blaenau.

### **Cynllunio ein hymagwedd**

Bu'r cyfnod cyntaf hwn o ymgysylltu yn rhan hanfodol o lywio fy ymagwedd dros gyfnod fy swydd.

Mae'r sgysiau gydag uwch arweinwyr, staff llinell flaen, y trydydd sector a'r sector preifat, a'r cyhoedd, yn ogystal â fy nhîm fy hun, wedi fy helpu i sefydlu ein diben sefydliadol, sef:

- Amlygu'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol
- Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt
- Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen
- Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Defnyddiwyd hyn i amlinellu sut y bwriadwn wneud gwahaniaeth dros y saith mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen mwy [yma](#)

## **Amlygu'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol**

### **Pennu blaenoriaethau**

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi dweud, "Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, gobeithiwn y bydd y byd yn ei wneud yfory – gweithredu yn fwy na geiriau yw'r gobaith ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol".

Mae cwmpas eang y Ddeddf, yn cwmpasu bron pob maes polisi posibl, yn darparu'r cyfle i gyflawni'r Gymru a garem. Ond heb ffocws clir ar weithredu, mae perygl y bydd pobl yn parhau i siarad yn annelwig am ddatblygu cynaliadwy ac na fydd y newidiadau sydd eu hangen yn cael eu cyflawni.

Er mwyn cael effaith wirioneddol sy'n arwain at newid hirbarhaol go iawn, ac i wneud y gorau o'm hadnoddau cyfyngedig, amlinellais broses drylwyr o bennu meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt a ymgysylltodd â dros 1,300 o bobl, cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus ac arbenigwyr polisi yn ogystal â grwpiau penodol fel pobl ifanc ddigartref, menywod mudol, goroeswyr cam-drin domestig. Gan weithio gyda'r Sefydliad Economeg Newydd, datblygwyd cyfres o feini prawf i asesu'r meysydd hynny a fyddai'n gwneud y cyfraniad mwyaf at y saith nod llesiant ac yn ymgorffori'r dulliau o weithio yn y Ddeddf gyda ffocws penodol ar y tymor hir.

Yn dilyn y broses hon, rwyf wedi nodi chwe maes y byddaf yn canolbwyntio arnynt sy'n ymwneud â dwy thema fras:

**Creu'r seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**, ac yn hwnnw bydd y ffocws ar

- Dai
- Ynni
- Trafnidiaeth

**Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol**, ac yn hwnnw bydd y ffocws ar

- Sgiliau
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)
- Ymagweddau newydd at hwyluso llesiant corfforol a meddyliol – a ddisgrifir yn aml fel presgripsiynu cymdeithasol

Y rhain yw'r meysydd y bydd fy Swyddfa'n gweithio arnynt yn rhagweithiol o ran amlygu'r materion a'r atebion posibl ar lefel genedlaethol a lefel leol, a dyma'r ffordd y byddaf yn hyrwyddo fy nghyfraniad innau i'r eithaf at y nodau llesiant. Yn eu hanfod, mae'r materion hyn ymhlith y materion mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu Cymru, ond

mae'n bwysig nodi na ddylai'r meysydd hyn gyfyngu'r materion y bydd angen i gyrrff cyhoeddus eu hystyried fel rhan o'u dyletswydd o dan y Ddeddf hon.

Adeiladais ar fy ymgysylltiad cychwynnol i sefydlu'r ymagwedd hon ac i ddatblygu sgwrs er mwyn sicrhau bod gymaint o bobl â phosibl wedi bod yn rhan o'r broses pennu blaenoriaethau. Rydym wedi defnyddio hyn fel cyfle i brofi dulliau arloesol a chydweithredol ac i ddatblygu ein hymagwedd. Mae hyn wedi cynnwys:

- Sesiynau wyneb yn wyneb a gweithdai yn cael eu cynnal gan aelodau o'r tîm gydag ystod eang o sefydliadau a grwpiau
- Gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru a Chanolfan Cynefin i ddatblygu arolwg gan ddefnyddio'r cymhwysiad SenseMaker® a gasglodd ychydig llai na 1,000 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a phobl â diddordeb i gyflawni'r nodau llesiant
- Pedwar gweithdy ar hyd a lled Cymru, gyda dros 250 o gynrychiolwyr
- Gwybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad o Aseidiadau Llesiant a materion a nodwyd
- Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus a helpodd i rannu'r sgwrs drwy eu rhwydweithiau a sianeli cyfathrebu
- Adolygu gohebiaeth oddi wrth aelodau'r cyhoedd
- Bwrdd seinio arbenigol
- Arolwg o arbenigwyr ar y cyfleoedd gorau ar gyfer ymyriadau

Rwyf yn hynod ddiolchgar i bawb a neilltuodd yr amser i ymateb, ac i'r sefydliadau a weithiodd gyda ni i gyrraedd ymhellach na'r cynulleidfaoedd arferol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y broses [yma](#)

## **Hyrwyddo Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymagwedd Cymru at Ddatblygu Cynaliadwy**

Rwyf wedi amlinellu pam y mae'n bwysig gwranddo yn gyntaf a chymryd amser i sicrhau mai'r ymagwedd dymor hir yw'r un iawn, ond yn ystod fy mlwyddyn gyntaf rwyf wedi bod yn benderfynol o nodi cyfleoedd i hybu a hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum dull o weithio o fewn yr egwyddor honno.

Yn fy mlwyddyn gyntaf, rwyf wedi hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy felly drwy:

### **Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol**

Rwyf wedi gweithio gyda'r Sefydliad Economeg Newydd i ddatblygu **Fframwaith Seilwaith Cenedlaethau'r Dyfodol** er mwyn dangos sut y gall sefydliadau wneud penderfyniadau gwell gan ddefnyddio'r pum Dull o Weithio wrth gynllunio a dylunio rhaglenni seilwaith mawr. Ar hyn o bryd, rwy'n rhoi'r fframwaith ar brawf gydag ystod o randdeiliaid er mwyn asesu ei ddefnyddioldeb cyn ei gyflwyno ymhellach. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ei ddefnyddio mewn perthynas â'r system Fetro ac mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Abertawe yn ei ddefnyddio mewn perthynas â phrosiectau Bargeinion Dinesig arfaethedig. Rwy'n bwriadu adolygu'r fframwaith ar ôl cael adborth gan randdeiliaid, a byddaf yn anelu i gyhoeddi fersiwn derfynol yn yr

Hydref. Mae mwy o waith yn yr arfaeth i adeiladu ar y fframwaith trwy ddatblygu offeryn i gynorthwyo cyrff cyhoeddus wrth gynllunio a dylunio rhaglenni a pholisïau nad ydynt yn ymwneud â seilwaith.

**Argymhelliad: Pan fydd y fframwaith hwn wedi'i gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallai'r Comisiwn Seilwaith sydd newydd ei greu ei ddefnyddio i gynorthwyo ei waith**

### **Bargeinion Dinesig**

Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen gwerth £1.2biliwn dros 20 mlynedd, yn effeithio ar boblogaeth y disgwylir iddi fod yn 1.8m bryd hynny ar draws y 10 awdurdod lleol cysylltiedig. A hithau'n rhaglen 20 mlynedd, mae'r Fargaen Ddinesig yn cynnig cyfle anarferol a gwerthfawr i'r awdurdodau dan sylw weithio yn ôl amserlen hwy, yn enwedig mewn perthynas â chyllidebu. Mae hefyd yn gyfle i ddangos sut y gallai cymhwysu'r Ddeddf i brif raglen buddsoddi cyhoeddus weddnewid llesiant a mynd i'r afael â heriau parhaus fel newid hinsawdd, tlodi, anghydraddoldeb, cydlyniant cymdeithasol, swyddi a sgiliau mewn ffordd wirioneddol hirdymor ac ataliol - gan ddefnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Gyda chyrrff datganoledig sydd o fewn cwmpas y Ddeddf a Llywodraeth y DU (nad ydyw), ceir rhai heriau o ran sicrhau nad yw'r deilliannau a geisir yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar fesur Cynnyrch domestig gros. Rwyf wedi bod yn glir bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus sydd o fewn cwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddangos eu bod yn ei defnyddio fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar lefelau buddsoddi strategol ac unigol. Rwyf wedi cysylltu ag arweinwyr awdurdodau lleol a phrif weithredwyr ac arweinydd y Llywodraeth yn ogystal â Chadeirydd y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth i geisio sicrhau bod unrhyw argymhellion neu benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar y rhaglen Bargaen Ddinesig yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf yn llawn ac yn galluogi'r Fargaen Ddinesig i gyfrannu gymaint â phosibl at y nodau a gwella llesiant cymunedau (darllenwch fwy [yma](#)). Rwy'n falch fod Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Abertawe yn defnyddio fy Fframwaith Seilwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar hyn o bryd i asesu eu prosiectau arfaethedig (gweler uchod). Gan symud ymlaen, rwy'n gweithio gyda myfyriwr doethuriaeth o Brifysgol Caerdydd i archwilio effaith bosibl Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar bobl ifanc.

Mae mwy o waith i'w wneud wrth i raglenni y fargaen ddinesig ddatblygu.

**Argymhelliad: Wrth i fargeinion dinesig a rhaglenni datblygu economaidd eraill ledled Cymru symud ymlaen, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol cysylltiedig a Llywodraeth Cymru ddangos eu hunain sut maent yn mynd ati i gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig adlewyrchu'r diffiniad statudol o Gymru ffyniannus yn ogystal â dadlau'r achos i Lywodraeth y DU am i'r fframwaith mwy blaengar hwn gael ei fabwysiadu.**

## **Ffordd liniaru'r M4**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud penderfyniadau heddiw nad ydynt yn peryglu anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n pryderu na wnaeth cynigion i adeiladu rhan newydd o draffordd yr M4 o amgylch Casnewydd ystyried anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol; mae prosiectau seiliwaith mawr fel hyn yn arwyddocaol o ystyried lefel arfaethedig y gwariant a'r angen i gynigion gyfrannu gymaint â phosibl at yr holl nodau llesiant. Ysgrifennais at Ysgrifennydd y Cabinet haf diwethaf i nodi pryderon cychwynnol, a chyflwynais dystiolaeth i'r Ymchwiliad Cyhoeddus yn gynharach eleni (darllenwch fwy [yma](#)). Dyma oedd y prif bwyntiau:

1. Nid yw adeiladu ffordd newydd er llesiant pennaf cenedlaethau'r dyfodol
2. Nid yw'r broses benderfynu wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r pum dull o weithio (egwyddor Datblygu Cynaliadwy)
3. Nid yw'r cynllun arfaethedig yn cefnogi'r saith o nodau llesiant yn ddigonol
4. Credaf fod ffyrdd eraill o wario £1bn a fyddai'n creu mwy o fuddion i genedlaethau'r dyfodol.

Defnyddiwyd y Ddeddf yn helaeth mewn tystiolaeth i'r Ymchwiliad ac rwyf wedi codi pryderon yn uniongyrchol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Er mwyn sicrhau bod unrhyw asesiadau newydd o gynlluniau trafndiaeth yn bodloni nod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn y modd gorau, mae fy swyddfa yn gweithio'n uniongyrchol gyda Swyddogion Trafndiaeth ar yr adolygiad o'r Arweiniad ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru (WELTAG) sy'n cael ei ddefnyddio i asesu'r angen am raglenni seilwaith trafndiaeth a'u dyluniad.

**Argymhelliad: Dylai'r Llywodraeth adolygu'r broses benderfynu ar yr M4 gyda'r bwriad o sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar seilwaith trafndiaeth yn y dyfodol gan ddefnyddio fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar y cychwyn yn hytrach nag ôl-ffitio pan fydd y penderfyniad wedi'i wneud.**

**Dylai canllaw diwygiedig WELTAG integreiddio'n llawn y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy (y pum Dull o Weithio: hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio a chynnwys) yn ei ddylunio a'i gynnwys a'r ddyletswydd i gyfrannu gymaint â phosibl at y saith o nodau llesiant. Byddwn yn parhau i gefnogi swyddogion wrth ddatblygu'r gwaith hwn.**

## **Metro De Cymru**

Rwyf wedi gweithio'n uniongyrchol gyda Trafndiaeth Cymru ar y broses ar gyfer datblygu'r ymagwedd at gaffael y Metro newydd ar gyfer De Ddwyrain Cymru, ac roeddwn am sicrhau bod y Nodau a'r Dulliau o Weithio wedi'u hymgorffori yn y prosiect o'r dechrau. Rwyf wedi darparu cyngor a chymorth i'w helpu i wneud hyn, ac o ganlyniad maent wedi myfyrio ynglŷn â sut y gall ystyriaethau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol, moesegol ac arloesol danategu'r broses



caffael er mwyn annog datblygu swyddi lleol, sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd cadwyn gyflenwi, cynnwys cymunedau lleol a hyrwyddo diwylliant, a chymau cadarnhaol ar faterion amgylcheddol fel gwastraff, llygredd aer ac allyriadau carbon. Mae'r gwaith hwn yn addawol, ac rwy'n croesawu parodrwydd Trafnidiaeth Cymru i ddefnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer caffael y system fetro newydd.

**Argymhelliad: Mae'r gwaith hyd yma yn addawol, ond rhaid cael ymrwymiad clir gan y Llywodraeth i system fetro ddi-garbon dros amser i gyfateb i hyn hefyd, ymrwymiad y mae'n rhaid ei ymgorffori yn y gofynion caffael ar gyfer y cynllun.**

### **Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio**

Trwy gydol fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd, rwyf wedi bod yn tynnu sylw at y ffaith fod newid hinsawdd yn fater allweddol i Genedlaethau'r Dyfodol. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i ddatblygu cyllidebau carbon i Gymru a fydd yn amlinellu sut y cyflawnwn ostyngiad o 80% o leiaf yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Mae fy nhîm yn gweithio gyda nhw i sicrhau eu bod yn mabwysiadu ymagwedd gyfannol yn hytrach na dilyn y llwybrau mwyaf cost-ffeithiol (fel y gwnaed ar gyfer cyllideb carbon y DU). Rwyf am sicrhau bod y polisïau a'r cynigion yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r pum Dull o Weithio, er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol Cymru, a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn. Wrth i'r Llywodraeth symud at weithredu cyllidebau carbon, rwyf hefyd wedi gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol herio'i gydweithwyr yn y Cabinet ar y graddau y maent wedi ystyried allyriadau carbon yn eu cynlluniau gwario adrannol.

**Argymhelliad: Wrth ddatblygu ei hymagwedd at gyllidebu carbon, mae'n rhaid i'r Llywodraeth ddangos bod ei hymagwedd yn ystyried mwy na mecaneg llunio cyllideb carbon yn unig, ond rhaid iddi hefyd nodi ffyrdd y mae'r ymagwedd at ddatgarboneiddio yn hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar draws pob un o'r Nodau Llesiant. Hefyd, rhaid i'r Llywodraeth ddangos sut mae ei chynlluniau gwariant ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf yn adlewyrchu'r ymrwymladau hyn sy'n dod i'r amlwg.**

### **Yr Hwb ACE (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)**

Ar ôl nodi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod fel maes blaenoriaeth posibl a mainc arbrofi ar gyfer cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg, rwyf wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill drwy Gymru Well Wales i gefnogi datblygu hwb ACE a fydd yn darparu cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus unigol i atal a lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bydd yr Hwb, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2017, yn cynnwys secondiad o fy nhîm i. Bydd rhan o'r Tîm sy'n cael ei ariannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio yn fy swyddfa i er mwyn hyrwyddo ymgysylltu a chydweithio o ddydd i ddydd. Bydd gwaith cynnar yn canolbwyntio ar nodi arfer da o ran mynd i'r afael ag ACEau a fydd yn bwydo i mewn i'r

cyngor a'r cymorth rwy'n eu darparu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'u cynlluniau ar gyfer llesiant.

### **Cymorth i Gyrrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Yn ystod y 14 mis cyntaf, buom yn meithrin perthnasoedd ac yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd i'w cynorthwyo wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Ddeddf.

Rwy'n ddiolchgar am y ffordd y maent wedi gweithio gyda mi a'm tîm.

Ni ddylem danamcangyfrif maint yr her o ddarparu cyngor a chymorth o ran y newid diwylliant a fynnir gan y Ddeddf yn ogystal ag ar draws yr holl feysydd sydd o fewn cwrpas y Nodau Llesiant, a hynny gyda thîm bach a chyllideb o lai nag £1.5miliwn. Mae'n hanfodol felly fod rhaglenni a ffrydiau cyllido cyrrff eraill, yn enwedig y rheiny a ariennir gan y llywodraeth y bwriedir iddynt gefnogi datblygu ac arloesi arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus, yn cynorthwyo i gefnogi'r rhaglen hon o newid diwylliannol.

**Argymhelliad: Dylai fod gofyniad penodol ar yr holl raglenni a ariennir gan y Llywodraeth sy'n canolbwyntio ar ddarparu datblygu arweinyddiaeth i'r sector cyhoeddus i gefnogi gweithredu'r Ddeddf fel rhan graidd o'u meini prawf cylch gwaith neu raglenni**

### **Adolygiad o Asesiadau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Gwneuthum benderfyniad cynnar i ddarparu adborth unigol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Comisiynais adolygiad o holl asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'r bwriad o nodi meysydd lle'r oedd y Byrddau yn gwneud cynnydd da o ran cymhwyso'r Dulliau o Weithio yn y Ddeddf a meysydd lle ceir heriau ac y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r wybodaeth a gasglwyd a'r hyn a ddysgwyd o ddatblygu'r don gyntaf o Asesiadau Llesiant wedi bod yn gam cyntaf pwysig ym mywyd y Ddeddf, ac wedi llywio datblygu fy Mlaenoriaethau hefyd. Gyda mewnbwn gan gyrrff eraill fel y Comisiynwyr eraill, Chwaraeon Cymru, y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy a Chyfoeth Naturiol Cymru, byddaf yn llunio adroddiad trosolwg yn fuan sy'n amlygu'r heriau a wynebir, a nod yr adroddiad yw rhoi dealltwriaeth a rhannu dysgu er mwyn adeiladu ar y gwaith hyd yma.

### **Mae canfyddiadau allweddol o'r gwaith hwn wedi nodi'r canlynol:**

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymryd cam cyntaf pwysig i'r cyfeiriad iawn. Dylid eu llongyfarch am yr ymagwedd gadarnhaol a fabwysiadwyd ganddynt at gwblhau'r asesiadau. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru helpu i gyflenwi gwasanaethau a fydd yn gwneud bywydau pobl yn well ac a fydd yn fuddiol i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r adolygiad o'r asesiadau yn amlygu'r heriau a wynebir, a nod yr adroddiad yw rhoi dealltwriaeth a rhannu dysgu er mwyn adeiladu ar y gwaith hyd yma.

Bydd arweinyddiaeth weithgar yn parhau i fod yn bwysig. Mae angen dangos yn gliriach y parodrwydd i wneud pethau'n wahanol, parhau i chwalu seilos a symud y ffocws o'r tymor byr i'r tymor hwy. Rhaid i aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wneud yn siŵr bod yr asesiadau hyn yn cael eu gweld fel cyfle i ddatblygu ac ymgorffori datrys problemau a arweinir gan wybodaeth yn barhaus yn hytrach na rhywbeth a wneir unwaith bob pum mlynedd.

Mae angen mwy o waith i adeiladu gwell dealltwriaeth am fywydau pobl. Dangosodd yr asesiadau fod ymdrechion amlwg wedi'u gwneud i weithio gyda'r cyhoedd, ond mae angen gwneud mwy i symud i ffwrdd oddi wrth ymgynghori traddodiadol at sgwrs barhaus ynglŷn â'r dyfodol, i ddefnyddio'r wybodaeth a ddelir gan sefydliadau partner a deallusrwydd o ddydd i ddydd a gesglir gan wasanaethau sy'n gweithio yng nghanol cymunedau.

Mae'r asesiadau yn amlygu nifer o dueddiadau arswydus. Mae'r rhain yn cynnwys gordewdra yn ystod plentyndod, anghydraddoldebau iechyd, newid hinsawdd a thlodi parhaus rhwng y cenedlaethau. Mae angen rhoi'r sgiliau, yr adnoddau a'r arbenigedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol, anghenion cenedlaethau'r dyfodol a sut i ymateb i'r rhain. Mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i ateb yr her hon.

Mae angen i ni durio'n ddyfnach i ddata. Nid dim ond casgliad o ddata ddylai'r asesiadau fod, dylent fod yn gyfle i wneud cysylltiadau rhwng materion allweddol a gofyn 'beth am hynny' o ganlyniad i'r data sydd gennym. Mae'r ddealltwriaeth a'r sgiliau i wneud hyn ar draws sefydliadau yn gyfyngedig, ac mae angen datblygu hynny ymhellach.

Yn aml, eir i'r afael â materion yn unigol o hyd. Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddangos dealltwriaeth ehangach o lesiant - wedi'i gwreiddio ym mhob un o'r saith Nod Llesiant a chan gydnabod y cysylltiadau rhwng materion. Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddangos sut maent yn nodi ac yn archwilio tensiynau rhwng materion a blaenoriaethau gwahanol er mwyn galluogi trafodaeth onest ynglŷn ag ymagweddau newydd y mae angen eu mabwysiadu a chydweithredu i wneud pethau'n wahanol.

Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â'r ddeialog barhaus rhyngom, wedi fy ngalluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda o'u hanghenion a bydd yn fy helpu i benderfynu lle gall cymorth a her i fusnes yn ôl yr arfer gael yr effaith fwyaf. Mae anghenion a nodwyd yn cynnwys:

- Deall sut i ddefnyddio'r pum Dull o Weithio er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at y Nodau Llesiant
- Goresgyn rhwystrau i systemau fel fframweithiau perfformiad anghyson, ffrydiau cyllido ac ymagweddau at archwilio sy'n eu hatal rhag gallu gwneud hyn
- Adnabod sut gall y Ddeddf gynorthwyo i wneud synnwyr o'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau statudol eraill ar gyrff cyhoeddus, er enghraifft drwy fy ngwaith gyda'r Comisiynydd Plant (gweler isod)

- Cysylltu pobl a chyrrff gyda gwybodaeth a chymorth er mwyn helpu arbrofi, herio'n adeiladol a tharfu ar ymagweddau traddodiadol, gan hefyd nodi atebion arloesol
- Cymorth i ddatblygu'u hyder i gymhwyso syniadau ac ymagweddau newydd

Mae'r gwaith hwn wedi arwain at ymrwymiad yn fy nghynllun saith mlynedd i ddatblygu ymagwedd Addas i Genedlaethau'r Dyfodol, yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth ac arweiniad targedig i helpu cyrrff cyhoeddus roi mwy o ystyriaeth i'r effaith a gaiff ein gweithredoedd heddiw ar genedlaethau'r dyfodol.

## **Gweithio gydag eraill i yrru'r newidiadau sydd eu hangen**

### **Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru**

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol a minnau gydnabod yn gynnar y byddem yn cynyddu effaith gadarnhaol ein dyletswyddau statudol drwy weithio gyda'n gilydd i ddarparu ymagwedd gyson at gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth bennu ein disgwyliaid. Gwnaethom ymrwymiad cynnar i wneud hyn, gan ddarparu negeseuon ar y cyd ynglŷn â disgwyliaid a chynnal y digwyddiad "Llunio Atebolrwydd" lle amlinellom yr angen am ymagwedd weddnewidiol ac nid ticio blychau yn unig.

Rwyf wedi darparu cyngor a chefnogaeth i ddull cynlluniedig Archwilydd Cyffredinol Cymru o gasglu sylwadau gan gyrff cyhoeddus ar eu blwyddyn gyntaf o bennu amcanion Llesiant a mewnbwn i'r dulliau peilot cynlluniedig a meysydd i'w harchwilio yn ystod 2017-18.

Rwy'n ddiolchgar i dîm Cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru am weithio gyda ni ar ddigwyddiadau dysgu ar y cyd ac i gefnogi ein hymagwedd at gyfranogiad arloesol wrth i mi bennu fy mlaenoriaethau y byddaf yn canolbwyntio fy nghymorth a'm cyngor i gyrff cyhoeddus drwyddynt.

Rwyf hefyd wedi cydweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Llywodraeth Cymru a Chyddfederasiwn y GIG yn ysgrifenedig i Awdurdodau Lleol, ac ar achlysur ar wahân, i Ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol i egluro dyletswyddau statudol y Ddeddf a'r graddfeydd amser sydd ynghlwm â phennu amcanion llesiant unigol ar gyfer eu corff cyhoeddus.

### **Gweithio gyda chynrychiolwyr etholedig**

Ochr yn ochr â chyfarfodydd uniongyrchol gydag ACau a Chynghorwyr, rwyf wedi gweithio gyda CLILC a rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru, i ddarparu cyngor ar y deunydd ymsefydlu i aelodau sydd newydd eu hethol yn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2017. Rwyf hefyd yn darparu cymorth a gwybodaeth i CLILC ar gyfer y digwyddiadau rhanbarthol wedi'u hanelu at aelodau etholedig yn yr Hydref 2017. Bwriad hyn yw rhoi dealltwriaeth i'r holl aelodau etholedig lleol o'u rôl a'u cefnogi i weithredu'r Ddeddf. Rwyf wedi ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad gyda gwahoddiad i

gyfarfod. Mae fy nhîm a minnau wedi cyflwyno hyfforddiant a sesiynau briffio yn y Senedd. Rwyf hefyd wedi rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r Pwyllgor Cyllid.

**Ymgorffori Hawliau Plant ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol** Gan weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru drwy aelod o staff a ariennir ar y cyd, rydym wedi datblygu fframwaith a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i feddwl ynglŷn â sut maent yn ymgorffori hawliau a datblygu cynaliadwy yn eu gwaith i wneud y defnydd gorau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cynhelir peilot o'r fframwaith yn fuan.

## **Gohebiaeth**

Mae aelodau'r cyhoedd yn ysgrifennu ataf ynglŷn ag ystod eang o faterion, a byddaf yn ymateb drwy ddarparu cyngor ac arweiniad ar gymhwyso'r Ddeddf. Er nad oes gennyf swyddogaeth gwaith achos o dan y Ddeddf, gwelaf hyn fel cyfle arall i hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a grymuso pobl i ddefnyddio'r Ddeddf i gyfranogi mwy a chyfrannu at wella penderfyniadau yn lleol.

Yn bwysicaf, rwy'n mynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu gohebiaeth a dderbynnir er mwyn nodi unrhyw faterion ar draws systemau y gallaf ddarparu her, cymorth a chynngor arnynt i gyrff cyhoeddus.

Roedd llawer o'r ohebiaeth a dderbyniais yn ystod 2016-17 yn ymwneud â chynllunio. Rwyf wedi cyfarfod ag uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru ac yn Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ogystal ag annerch swyddogion awdurdodau lleol a gweithwyr cynllunio proffesiynol i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu yn y modd gorau, ac i dynnu sylw at y materion a'r heriau yr adroddir i mi. Byddaf yn parhau i fonitro gohebiaeth a materion a amlygir mewn manau eraill wrth ystyried p'un a oes angen ymyriadau pellach yn y maes hwn.

## **Gweithredu yn ogystal â thrafod - yr ymagwedd at sefydlu fy Swydd**

**Cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy i sefydlu'r swydd** - cynigiwyd lle i mi rannu gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae cydweithio fel hyn yn galluogi gwneud defnydd da o arian cyhoeddus gyda'r fantais ychwanegol o allu gweithio'n agos at Gomisiynydd arall. Roedd angen ailwampio'r lle, a chan ganiatáu ar gyfer cyfyngiadau'r seilwaith presennol, fy nod oedd cadw costau mor isel â phosibl, a lle bo modd, ymgorffori effeithlonrwydd ynni yn yr ailddyluniad. Felly, cafodd gosodiadau a ffitiadau a chelfi eu huwchgylchu o storffeydd Llywodraeth Cymru, a chafodd parwydydd presennol eu hailddefnyddio a'u hailosod; gosodwyd falfiau dan reolaeth thermostat ar bob un o'r rheiddiaduron, defnyddiwyd bylbiau golau sy'n arbed ynni, a gosodwyd goleuadau sy'n sensitif i symudiadau mewn rhai ardaloedd yn amgylchedd y swyddfa. Drwy fabwysiadu'r ymagwedd hon, roedd modd i mi leihau'r gwariant sefydlu ar y meysydd hyn yn sylweddol.

**Adlewyrchu profiadau bywyd pobl** - Rwyf wedi ymrwymo i nodi ffyrdd i alluogi fy ngwaith i adlewyrchu profiadau bywyd pobl. Rwyf wedi datblygu sesiynau ciniawa a dysgu i staff lle mae unigolion neu gynrychiolwyr o sefydliadau yn rhannu'u profiadau gyda'r tîm cyfan unwaith y mis. Hyd yn hyn, mae'r cyfranwyr wedi cynnwys: adborth ar gynhadledd Datblygu Cynaliadwy 2016; gofal iechyd o safbwynt cleifion; sut mae'r Ddeddf wedi helpu menter Arloesi Clyfar Llywodraeth Cymru i fireinio ceisiadau grant yr UE; cipolwg ar fywydau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghaerdydd; cipolwg ar fywyd rhai sydd wedi dioddef effeithiau hirdymor profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chyfarparu'r sector cyhoeddus i ddelio â cheir trydan a heriau caffael.

### **Cynaliadwyedd ar waith**

O ddydd i ddydd, rydym wedi rhoi ystod o bethau ar waith i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Rwyf yn gyflogwr ag achrediad Cyflog Byw Go lawn.

Rheoli papur – rydym yn gweithredu system gwmwl a system rheoli cofnodion ddi-bapur. Mae'r rhain yn galluogi cael ystod eang o wybodaeth heb yr angen am systemau dosbarthu papur.

Caffael - mae'n ofynnol i bob un o'n cyflenwyr ddefnyddio cynhyrchion ecogyfeillgar a phennwyd hyn fel amod hanfodol yn ein contract glanhau'r swyddfa. Mae cynhyrchion papur ystyriol o'r amgylchedd, fel papur ac amlenni wedi'u hailgylchu a defnyddiau traul masnach deg yn cael eu defnyddio yn y swyddfa.

Gwaredu Gwastraff – rydym yn ailgylchu ein papur, cardbord, plastigau a'n gwastraff bwyd.

Gofynnaf i'm tîm i ystyried y ffordd 'wyrddaf', mwyaf cost-effeithiol a mwyaf effeithlon o gyflawni ein busnes. Er enghraifft, defnyddio trafniadaeth gyhoeddus a rhannu ceir wrth deithio ar fusnes swyddogol, ac osgoi teithio diangen. Ar ôl sefydlu seilwaith TG sy'n cefnogi gweithio ystyryth, a chaffael cyfarpar fideo-gynadledda wedi'i ailgylchu, mae gweithio o bell wedi dod yn nodweddiadol o'n dull o weithio, gan gyfrannu at lai o allyriadau carbon yn sgil teithio a chydwbysedd gwell i staff rhwng bywyd a gwaith.

### **Darparu adnoddau ar gyfer fy ngwaith**

Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio wedi bod yn fan cychwyn i'm holl benderfyniadau ar ddarparu adnoddau. Yn unol ag egwyddorion cydweithio, integreiddio a chynnwys yn y Ddeddf, credaf mai'r modd gorau o gyflawni'r ystod eang o bwerau a dyletswyddau a roddwyd i mi yw drwy weithio gydag eraill lle gallwn ddefnyddio gwybodaeth ac adnoddau ehangach sefydliadau eraill sy'n rhannu ein nodau. Rwyf wedi bod yn ddarbodus mewn perthynas â chostau sefydlu, ac mewn llawer o achosion rwyf wedi gallu lleihau'r costau cefn swyddfa a ddyrannwyd yn wreiddiol trwy wneud penderfyniadau arloesol ynglŷn â darparu adnoddau ar gyfer

rhannu costau a swyddi cefn swyddfa yn ogystal â swyddi llinell flaen gyda chyrrff eraill. Er enghraifft:

- Sicrhau gofod swyddfa rhad ac am ddim ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer swyddfa Gogledd Cymru
- Mae'r gwaith cyflogres yn cael ei wneud gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
- Rhannu swyddogaeth Adnoddau Dynol gyda'r Comisiynydd Plant
- Rhannu swyddogaeth Cyllid gyda'r Comisiynydd Plant
- Rhannu staff polisi gyda Masnach Deg Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru (Hwb ACE), Heddlu De Cymru, y Comisiynydd Plant
- Secondiadau o Gyngor Rhondda Cynon Taf, Llywodraeth Cymru, Renewables UK
- Lleoliadau gwaith a phartneriaethau gyda myfyriwr PhD o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

Yn ychwanegol at hyn, rwy'n cynnig lle i gydweithio i sefydliadau eraill sy'n hwyluso gweithio ar y cyd gyda fy nhîm. Mae'r rhain yn cynnwys: Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru; yr Hwb ACE, tîm Cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, a Myfyriwr PhD Prifysgol Caerdydd.

Rwy'n bwriadu parhau â'r ymagwedd partneriaeth hon, a'i gwella yn 2017-18, drwy fuddsoddi mewn rhaglen o weithio gydag ystod o bartneriaid o'r sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus a fydd yn archwilio ac yn esbonio diffiniadau pob un o'r saith Nod Llesiant, a darparu cyngor ac arweiniad ymarferol i gyrff cyhoeddus ar y camau y gallant eu cymryd i gyfrannu gymaint â phosibl atynt.

## **Beth fyddwn ni'n ei wneud yn y 12 mis nesaf**

### **Parhau â'm gwaith cynnar**

Yn ogystal â datblygu gwaith mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth newydd, byddaf yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn fy mlwyddyn gyntaf. Yn benodol, byddaf yn parhau i weithio ar

- gefnogi Trafnidiaeth Cymru i gaffael metro De Cymru
- adolygu arweiniad WeITAG
- ystyried ymyriadau pellach ar yr M4
- canllawiau i gyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan weithio gyda'r hwb ACE
- datblygu Fframwaith Seilwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach

## **Amlygu'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol**

Cwblhawyd y gwaith yr ymgymerais ag ef i bennu blaenoriaethau yng nghanol mis Gorffennaf. Mae hyn eisoes wedi manteisio ar farnau ystod eang o randdeiliaid allweddol ac arbenigwyr academaidd. Eleni, byddaf yn ehangu'r rhwydweithiau hyn gyda ffocws ar y meysydd blaenoriaeth terfynol, a byddaf yn rhoi mecanweithiau ar waith ar gyfer sicrhau mewnbwn gan bobl sydd â phrofiad bywyd o'r materion a nodwyd trwy gynnal peilot o leoliad pobl yn fy nhîm.

Ar ôl pennu fy meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt (cyfeiriwyd atynt uchod), byddaf yn dangos sut gellir defnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer newid, ac yn datblygu rhwydwaith o arbenigwyr a chyfres o sesiynau briffio yn canolbwyntio ar y dyfodol i arwain a chefnogi cyrff cyhoeddus ar gamau gweithredu sydd eu hangen.

Byddaf yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth am ba mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn bodloni'u hamcanion llesiant er mwyn paratoi'r ffordd am yr adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf yn 2020. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu sut gall cyrff cyhoeddus wella'r ffordd y maen nhw'n meddwl ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

## **Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor y pethau a wnânt**

### **Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory:**

Byddaf yn darparu cymorth a her i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt bennu eu hamcanion llesiant, yn cynllunio'r camau y byddant yn eu cymryd i fodloni'r amcanion hyn ac yn rhoi eu cynlluniau llesiant ynghyd i'w cyhoeddi erbyn mis Mai 2018. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad manwl ar ganfyddiadau'r adolygiad ac yn cynnal digwyddiad arloesi i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddysgu oddi wrth ei gilydd. Bydd yr hyn a ddysgir o'r adolygiad yn cael ei ddefnyddio hefyd i helpu datblygu cymorth a chyngor ehangach.

### **Yn Addas i Genedlaethau'r Dyfodol:**

Byddaf yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus dros y saith mlynedd nesaf i ddatblygu cymorth sy'n annog eu gwaith i fod yn 'Addas i Genedlaethau'r Dyfodol', gan roi ystyriaeth well i effaith tymor hwy eu penderfyniadau, a'u cynorthwyo i fodloni'u dyletswyddau statudol er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y saith o Nodau Llesiant. Byddaf yn gwneud hyn trwy dri darn allweddol o waith

1. **Celfyddyd yr Hyn sy'n Bosibl** - Datblygu a chyflwyno rhaglen o gydweithio sy'n manteisio ar gyd-ddeallusrwydd pobl a sefydliadau ledled Cymru er mwyn



esbonio ac archwilio goblygiadau ymarferol defnyddio'r pum dull o weithio, i wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r nodau llesiant. Bydd hwn yn ddarn arwyddocaol o waith a fydd yn gosod y sylfeini i gyrrff cyhoeddus ddehongli'r nodau llesiant a gweithredu arnynt.

2. **Labordai Byw** - Manteisio ar arbenigedd gan ystod o randdeiliaid, datblygu a phrofi dulliau i gyfarparu cyrff cyhoeddus i 'gerdded drwy' faes neu fater i adeiladu gweledigaeth i'r dyfodol, a chymhwyso'r pum Dull o Weithio yn y Ddeddf. Byddwn yn parhau ein gwaith ar gaffael a datgarboneiddio, a byddwn yn datblygu rhaglen tair blynedd Labordai Byw yn seiliedig ar y meysydd blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg.
3. **Cwmwl o Arloeswyr** - cysylltu cyrff cyhoeddus â'i gilydd ac ag arbenigwyr a sefydliadau academaidd trwy raglenni datblygu sefydliadol, rheoli newid a thrawsnewid. Rydym yn datblygu rhwydwaith o 'arloeswyr' i gysylltu hyrwyddwyr cenedlaethau'r dyfodol ac arloeswyr yn eu maes, gyda'r gallu a'r parodrwydd i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r pum Dull o Weithio i herio busnes fel arfer.

### **Gweithio gydag eraill i yrru'r gwelliannau angenrheidiol**

Yn ychwanegol at gynlluniau ar gyfer cydweithio fel yr amlinellwyd uchod, byddaf yn defnyddio fy meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt i weithio gyda'r bobl a'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i yrru'r newidiadau angenrheidiol. Byddwn yn dechrau adeiladu dealltwriaeth o bob un o'r blaenoriaethau hyn ac yn datblygu astudiaethau achos ynglŷn â sut gellir defnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer trawsnewid.

**Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru** Byddaf yn parhau i weithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, wrth i ni sicrhau bod archwilio'n cael ei ddefnyddio i gefnogi deilliannau gwell. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y prosesau allweddol a amlinellwyd yn y Ddeddf yn cael eu gweithredu, ond gan gydnabod y bydd ymagwedd gydymffurfio yn unig yn methu arwain at y trawsnewid angenrheidiol. Mae fy nhîm yn cynorthwyo'r bobl sy'n cynllunio ac yn cyflawni'r gwaith peilot ar gyfer archwilio yn ystod 2017-18, sy'n rhoi ar brawf dulliau posibl o archwilio cyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf. Rydym hefyd wedi cynghori cydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru ar y dull a'r negeseuon mewn perthynas â'r sylwadau blwyddyn gyntaf y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu casglu gan gyrrff cyhoeddus ar bennu a chymryd camau tuag at eu hamcanion llesiant unigol.

Bydd fy nhîm yn parhau i weithio gyda'r tîm Cyfnewid Arfer Da i rannu dysgu ac arloesi ledled Cymru.

## **Ymgorffori Hawliau Plant ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol**

Byddaf yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru a chyrrff cyhoeddus i gyflwyno'r arweiniad i weithredu Hawliau Plant gan ddefnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

### **Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill**

Byddaf yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn 2016-17 drwy:

**Ddatblygu Diwylliant Sefydliadol yn unol â'r pum Dull o Weithio** – Yn Ebrill 2017, ystyriais pa mor dda yr oeddem yn gweithredu yn ogystal â thrafod ac yn ymgorffori'r pum dull o weithio yn ein harferion gweithio. Mae hyn wedi rhoi cynllun gweithredu i mi a'r tîm i adeiladu arno wrth i ni symud i mewn i'r ail flwyddyn o weithredu. Ym mis Mai 2017, cynhaliais sesiwn tîm cyfan i edrych ar ein polisiâu llesiant a sut gallem eu ffurfio i hyrwyddo profiad gweithio cadarnhaol i mi ac i wneud cyfraniad i'r saith o nodau llesiant. Mae hyn wedi esgor ar rai syniadau cyffrous sy'n canolbwyntio ar lesiant staff a chyfleoedd i sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant. Byddaf yn ceisio gweithredu'r cynigion mewn perthynas â'r darn hwn o waith yn 2017-18 a thu hwnt.

**Adolygiad o'n harferion caffael** – Byddwn yn manteisio ar y wybodaeth o fewn y tîm i adeiladu ar waith presennol wrth gymhwyso'r Ddeddf i ystyried ffyrdd y gall ein gweithredoedd fod yn fwy cynaliadwy.

**Ehangu ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithio mwy fyth** – Yn 2017, disgwyliwn ychwanegu partneriaid newydd at ein rhestr bresennol o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat yng Nghymru.

**Sophie Howe**  
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**  
**17<sup>th</sup> Gorffennaf 2017**

# Adroddiad Atebolrwydd

## Datganiad o Gyfrifon

### Fformat y Cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 20 Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru..

Daeth swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fodolaeth ar 1 Chwefror 2016 pan benodwyd Sophie Howe fel y Comisiynydd cyntaf. Mae'r cyfrifon hyn felly'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 ac nid oes unrhyw ffigurau cymharol. Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro adnoddau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

### Cyllido

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn y cyfnod adrodd cyntaf hyd at 31 Mawrth 2017, derbyniodd y Comisiynydd £1.5 miliwn i ariannu gweithgareddau'r Comisiynydd. Roedd hyn yn cynnwys £30,000 fel costau sefydlu cychwynnol yn cwmpasu'r cyfnod 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017.

### Canlyniadau am y cyfnod

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant, am y cyfnod, o £1,102 miliwn. Balans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £454,000 a bydd yn cael ei ddefnyddio i dalu costau sefydlu parhaus fy Swydd y disgwylir eu cwblhau yn 2017-18. Mae'r costau staff gwirioneddol yn is na hynny a amcangyfrifwyd yn fy nghyllideb ar gyfer 2016-17 oherwydd y cyfnod amser a gymerodd i recriwtio staff pan ddaeth y Swyddfa i fodolaeth. Gan symud i mewn i 2017-18, dyrennir y tanwariant cyfredol i ddarparu adnoddau i ddarn o waith 18 mis a fydd yn rhoi arweiniad i gyfrif cyhoeddus ar weithredu pob un o'r nodau llesiant (gweler uchod)

Mae lefel resymol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw hefyd i gyflawni'r swyddogaethau statudol yn y Ddeddf ac i ganiatáu ar gyfer unrhyw faterion brys, pwysig

a heb eu cynllunio a ddygir i sylw'r Comisiynydd. Mae'r cyfryw gostau ychwanegol yn debygol o fod yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol.

Yn ystod y cyfnod, roedd staff y Comisiynydd yn cynnwys 17.84 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn, sy'n cynnwys cyflogeion amser llawn a rhan amser, a'r rheiny ar secondiad o sefydliadau eraill.

## Cyfle Cyfartal

Fel sefydliad, casglwn ystadegau'r gweithlu mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ystadegau hyn yn cael eu defnyddio wedyn i gyfrannu at ddatblygu camau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb bob blwyddyn.

Nid yw'r holl ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi oherwydd maint ein gweithlu bach ac anhawster dilynol o ran cynnal ein rhwymedigaethau i warchod anhysbysrwydd data sensitif.

## Ystadegau'r Gweithlu yn ôl Rhyw

NIFER Y GWEITHWYR AR 31 MAWRTH 2017 YN ÔL RHYW A CHYMHARU YN ERBYN DATA POBLOGAETH CYFRIFIAD 2014: CYMRU (3,092,000)

| RHYW         | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru                        |    | CYMRU     |    | % GWAHANIAETH YN ERBYN Y BOBLOGAETH |
|--------------|---|----|-----------|----|-------------------------------------|
|              | Cyfanswm Nifer  | %  | Nifer     | %  |                                     |
| <b>Gwryw</b> | 6 (ac o'r rheiny mae 2 yn secondeion cyflogedig a 3 yn ddi-dâl) | 23 | 1,500,000 | 49 | -26                                 |
| <b>Benyw</b> | 20 (ac o'r rheiny mae 4 yn secondeion a 2 yn ddi-dâl)           | 77 | 1,560,000 | 51 | 26                                  |

## Ystadegau'r Gweithlu yn ôl Oedran

NIFER Y GWEITHWYR YN ÔL OEDRAN AR 31 MAWRTH 2017

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 a Hŷn | Ni ddatgelwyd |
|-------|-------|-------|-------|-------|----------|---------------|
| 2     | 2     | 8     | 7     | 1     | 1        | 5             |

### Ystadegau'r Rhai sy'n Gadael y Gweithlu

Ar wahân i'r Comisiynydd, roedd holl aelodau'r tîm yn newydd i'w swydd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Fe wnaeth 3 ymadael yn y cyfnod hwn: 2 o secondeion heb dâl ac un secondai cyflogedig rhan amser.

### Ystadegau'r Gweithlu yn ôl Rhyw a Chyflog

NIFER Y GWEITHWYR YN ÔL RHYW, BAND CYFLOG, MATH O GONTRACT, PATRWM GWEITHIO AR 31 MAWRTH 2017:

| Lefel cyflog<br>(neu gyfwerth<br>ar gyfer<br>secondeion) | A/LI<br>gwryw<br>parh | A/LI<br>gwryw<br>dros<br>dro | Rh/A<br>gwryw<br>parh | Rh/A<br>gwryw<br>dros<br>dro | A/LI<br>benyw<br>parh | A/LI<br>benyw<br>dros dro | Rh/A<br>benyw<br>parh | Rh/A<br>benyw<br>dros dro | Cyfan-<br>symiau |
|--|-----------------------|------------------------------|-----------------------|------------------------------|-----------------------|---------------------------|-----------------------|---------------------------|------------------|
| <b>Gradd 1<br/>£17 - 21k yf</b>                          |                       |                              |                       |                              |                       | 1                         |                       |                           | 1                |
| <b>Gradd 2<br/>£23 – 27k yf</b>                          |                       |                              |                       |                              | 3                     |                           |                       |                           | 3                |
| <b>Gradd 3<br/>£30 – 35k yf</b>                          |                       |                              |                       | 1                            |                       | 2                         | 1                     |                           | 4                |
| <b>Gradd 4<br/>£38 – 43k yf</b>                          |                       |                              |                       | 1                            | 2                     | 3                         |                       | 2                         | 8                |
| <b>Gradd 5<br/>£49 – 53k yf</b>                          |                       |                              |                       |                              |                       |                           |                       |                           | 0                |
| <b>Gradd 6<br/>£58 - £62 yf</b>                          | 1                     |                              |                       |                              | 1                     |                           | 2                     |                           | 4                |
| <b>Comisiynydd<br/>d £90 -95k<br/>yf</b>                 |                       |                              |                       |                              | 1                     |                           |                       |                           | 1                |
| <b>Secondai<br/>heb dâl</b>                              |                       | 3                            |                       |                              |                       | 2                         |                       |                           | 5                |
| <b>Cyfanswm</b>  | 1                     | 3                            |                       | 2                            | 7                     | 8                         | 3                     | 2                         | 26               |

## Ystadegau'r Gweithlu o ran Beichiogrwydd, Mabwysiadu a Mamolaeth

| BEICHIOWRWDYDD MABWYSIADU MAMOLAETH RHWNG EBRILL 2016 A MAWRTH 2017             |   |
|---|---|
| Nifer cyflogaion bechiog yn 2016 -2017  | 0 |
| Nifer cyflogaion yn cymryd Absenoldeb Mabwysiadu a/neu Famolaeth yn 2016 - 2017 | 1 |

## Ystadegau'r Gweithlu o ran Hyfforddi a Datblygu

Gohirir adrodd ar gyflogaion a gyfranogodd mewn hyfforddiant allanol yn ôl rhyw, band cyflog, math o contract a phatrwm gweithio hyd y flwyddyn ariannol nesaf.

Caiff yr holl geisiadau am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru eu hystyried ar y sail y dylai pawb gael cyfle cyfartal ar gyfer cyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, cymwysterau ac addasrwydd i'r gwaith. Cyflogais weithwyr o grwpiau Asiaidd a grwpiau cymysg aml-ethnig uwchlaw cyfraddau cenedlaethol cyfrifiad Cymru ac rwy'n archwilio ffyrdd i mi allu darparu cyfleoedd ehangach i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a bydd gwaith ar hyn yn cael ei ddatblygu yn y flwyddyn i ddod.

## Ymgynghori ac Ymgysylltu â Staff

Mae'r Comisiynydd yn ymgynghori'n rheolaidd â'i thîm ar ddatblygu sefydliadol a blaenoriaethau strategol. Yn y flwyddyn gyntaf, mae'r Comisiynydd wedi arbrofi gydag ystod o fecanweithiau ymgynghori ac ymgysylltu, gan gynnwys cyfarfodydd tîm cyfan yn fisol, sesiynau briffio deng munud wythnosol, sesiynau penodol ar ddiwylliant sefydliadol yn ogystal â defnyddio cyfleusterau sgwrsio ar-lein i'r holl staff.

## Absenoldebau Staff

Yn ystod y cyfnod adrodd, y gyfradd absenoldeb salwch yn swyddfa'r Comisiynydd oedd 0.6 y cant, yn seiliedig ar ganran o'r cyfanswm diwrnodau gweithio a oedd ar gael.

## Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod.

### **Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr**

Hyd y gŵyr y Comisiynydd, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn gwybod amdani ac mae ei Swyddfa wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i ddod i wybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn gwybod am y wybodaeth honno.

Yn ystod y cyfnod, ni thalwyd unrhyw gyflog i'r archwilwyr am waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio.

### **Digwyddiadau ers Diwedd y Flwyddyn Ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cronadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac o'i hincwm a'i gwariant, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wryiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn rhinwedd paragraff 18 Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ddosbarthwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Sophie Howe**  
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**  
**17<sup>th</sup> Gorffennaf 2017**





# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

## Diben

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal llywodraethu effeithiol a system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni fy mholisiâu, nodau ac amcanion, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dilyn Canllawiau Trysorlys EM. Mae'n amlinellu'r strwythurau llywodraethu i'n swyddfa, a'r gweithdrefnau rheoli mewnol a rheoli risg sydd wedi'u datblygu ers i mi ymgymryd â swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 1 Chwefror, 2016, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Cynlluniwyd y systemau sydd ar waith fel yr amlinellir yn y datganiad hwn i reoli risg ar lefel dderbyniol yn hytrach nag i ddiddymu pob risg o fethu cyflawni polisiâu, nodau ac amcanion; felly, ni all ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd, ac nid sicrwydd absoliwt. O ystyried natur arloesol y gwaith yn fy swydd, deuthum i'r casgliad fod angen mabwysiadu archwaeth risg "awchus" ar gyfer llawer o'm gwaith sy'n edrych tuag allan, gan na fyddai ymagwedd fwy traddodiadol finimalaidd neu ochelgar, yn fy marn i, yn llwyddo i sicrhau'r newid buddiol y sefydlwyd fy swydd i'w gyflawni. Caiff hyn ei esbonio ymhellach isod.

## Natur fy swydd ac atebolrwydd

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel unigolyn corfforaethol. Mae hyn yn golygu bod yr holl swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau) wedi'u breinio yn neiliad y swydd ac nid oes "bwrdd" traddodiadol sy'n gorfforaethol gyfrifol am berfformiad a llywodraethu'r sefydliad. Rwyf yn annibynnol ar Weinidogion ac, yn amodol ar Ddeddf 2015, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swydd. Rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran gweithredoedd fy swyddfa, ac i'w Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn benodol ar gyfer materion fel y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

## **Panel cynghori**

Sefydlwyd panel gan Ddeddf 2015 i roi cyngor i mi ar gyflawni fy swyddogaethau. Mae aelodau'r panel cynghori fel a ganlyn— (a) Comisiynydd Plant Cymru; (b) Comisiynydd y Gymraeg; (c) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; (ch) yr aelod staff o Lywodraeth Cymru a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru fel Prif Swyddog Meddygol Cymru; (d) cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu aelod anweithredol arall o'r corff hwnnw a etholwyd gan y cadeirydd; (dd) swyddog o'r corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru a elwir yn Wales TUC Cymru a enwebwyd gan y corff hwnnw; (e) cadeirydd, cyfarwyddwr neu swyddog tebyg, fel y gall Gweinidogion Cymru ei benodi, corff sy'n cynrychioli personau sy'n cynnal busnes yng Nghymru; (f) unrhyw gyfryw berson arall y gall Gweinidogion Cymru ei benodi. Mae'r panel wedi cyfarfod ar ddau achlysur yn 2016-17 yn y lle cyntaf i drafod cwmpas a chylch gwaith cyngor, ac i bennu amlder cyswllt a chyfarfodydd, ac yn ail, i ystyried y cynllun strategol drafft a meysydd blaenoriaeth polisi arfaethedig ar gyfer cyfnod fy swydd.

## **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

Rwyf wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i ddarparu cyngor a her adeiladol ar faterion llywodraethu, rheolaeth ariannol ac archwilio, a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol – gan gynnwys nodi a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys:

- Alan Morris, Archwilydd wedi ymddeol a hyrwyddwr ymroddedig datblygu cynaliadwy, sy'n cadeirio'r Pwyllgor;
- Jocelyn Davies, cyn AC Plaid Cymru a chyn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a chadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad, aelod o'r Panel Cynghori i'r Comisiynydd Plant ac ymddiriedolwr Care & Repair Cymru;
- John Dwight, Archwilydd wedi ymddeol, ymddiriedolwr a thrysorydd mygedol Gofal Hosbis George Thomas ac ysgrifennydd cangen ar gyfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yng Nghymru;
- Gareth Madge, cyn Brif Swyddog a Phrif Cynghorydd Cyfreithiol gyda Heddlu De Cymru, aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), Cadeirydd Cymdeithas Cyfreithwyr yr Heddlu; a
- Jonathan Morgan, cyn AC ceidwadol a chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad, a Chyfarwyddwr Practice Solutions ar hyn o bryd.

Mae pob un ohonynt yn annibynnol ac nid ydynt yn gweithio i'r Comisiynydd. Cyfarfu'r Pwyllgor gyntaf ar 24 Ionawr 2017 ar gyfer sesiwn ymsefydlu, ac mae wedi cael un

cyfarfod arall ar 28 Mawrth 2017. Mynychwyd y ddau gyfarfod gan yr holl aelodau. Fel arfer, bydd yn cyfarfod pedair neu bum gwaith y flwyddyn yn y dyfodol.

## **Uwch Dîm Rheoli**

Mae'r Uwch Dîm Rheoli a minnau yn cyfarfod bob pythefnos i drafod cynnydd, a materion gweithredol a strategol. Mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol ac yn atebol i mi am gyflawni'r cynlluniau gweithredol cymeradwy ar gyfer eu timau. Byddaf innau'n gwneud penderfyniadau allweddol ar ôl trafod gydag aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Rwyf hefyd wedi rhoi awdurdod i rai aelodau staff awdurdodi trafodion ariannol.

## **Datblygu fframwaith llywodraethu**

Daeth rhan gynnar y cyfnod adrodd cyntaf i ben ar 31 Mawrth 2017 ac fe'i neilltuwyd i benodi staff, sicrhau adeilad ac ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill i'm helpu i benderfynu ar y ffocws gorau i waith fy Swydd i gefnogi cyrrff cyhoeddus wrth iddynt wneud y newidiadau a fynnir gan y Ddeddf. Roedd angen ailwampio'r gofod swyddfa a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru cyn fy mhenodiad, ac nid oedd ar gael i'w feddiannu hyd nes diwedd mis Tachwedd 2016. Yn sgil yr oedi maith hwn gyda fy nhîm yn gweithio mewn swyddfa dros dro, bu oedi o ran sefydlu'r strwythurau a'r systemau a phenodi'r nifer llawn o staff. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016, fodd bynnag, roeddwn wedi rhoi'r elfennau allweddol canlynol o'm fframwaith llywodraethu ar waith:

- Cytuno ar bolisiâu a gweithdrefnau cychwynnol y swyddfa ar gyfer adnoddau dynol a chyllid, gan gynnwys chwythu'r chwiban, a datganiadau o fuddiant.
- Penodi archwilywyr mewnol
- Penodi'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Rwyf hefyd wedi drafftio ac ymgynghori ar gynllun strategol ar gyfer fy nghyfnod yn y swydd. Mae'r cynllun hwnnw'n amlinellu'r hyn rwy'n gobeithio ei gyflawni drwy newid buddiol i bobl Cymru, a'r modd y bwriadaf fynd ati i wneud hynny ar y cyd â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'n ddogfen uchelgeisiol a fydd yn gofyn bod cyrrff cyhoeddus yn herio'u ffyrdd o weithio ac addasu arferion sefydledig i gyflawni'r hyn a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru pan benderfynodd ddwyn ymlaen yr hyn sydd bellach yn Ddeddf 2015. Mae'r cynllun hwn yn ddynamig a bydd yn cael ei addasu fel bo'r angen i ymateb i amgylchiadau yn newid.

Mae'r cynlluniau gweithredol neu'r rhaglenni gwaith ar gyfer pob maes gwaith wedi dilyn ymlaen o ddatblygu fy nghynllun strategol ac maent yn rhoi mwy o fanylion am natur ac amseru tasgau unigol sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun strategol. Mae'r rhain yn gyflawn i raddau helaeth, ond byddant yn cael eu haddasu eto fel bo'r angen i ymateb i amgylchiadau yn newid.

### **Ymagwedd at reoli risg**

Mae fy ymagwedd at reoli risg wedi dilyn ymlaen o ddatblygu'r cynllun strategol. Mae fy mholisi rheoli risg, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn nodi'n glir fy mod am greu a chynnal amgylchedd a fydd yn galluogi i reolaeth effeithiol ar risg ffynnu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ein staff yn cael gwybodaeth lawn am ein cynlluniau a'r ymagwedd y byddaf i a'r Uwch Dîm Rheoli yn ei mabwysiadu at reoli'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r polisi yn dangos yn glir nad wyf yn gyndyn i gymryd risgiau. I'r gwrthwyneb, bydd cyflawni'r amcanion yn fy nghynllun strategol a chyflawni'r hyn a ddisgwylir yn mynnu ymagwedd risg agored neu awchus yn aml nad yw'n norm i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill. Rwyf wedi dod i'r casgliad mai mabwysiadu dull o'r fath ar gyfer fy ngwaith tuag allan gyda chyrrff cyhoeddus eraill yw'r unig ffordd realistig o sicrhau'r newid sydd ei angen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gallai gwneud fel arall yn wir golygu methu manteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn codi, a bydd yn creu risg uchel o fethu cyflawni'r amcanion heriol yr wyf wedi'u pennu yn y cynllun strategol a'r hyn a ddisgwylir gennyf i gan fy rhanddeiliaid. Yn yr un modd, rwyf wedi penderfynu fod angen i'm sefydliad 'weithredu yn ogystal â thrafod' y Ddeddf, a bod yn agored ac yn arloesol, a rhoi cynnig ar ymagweddau newydd o ran y ffordd rydym yn gweithio. Fodd bynnag, ni chymerir y cyfryw risgiau'n fyrbwyll, ond yn hytrach byddant yn cael eu rheoli'n briodol ac yn ofalus gyda'r nod o gyflawni mewn modd mor llwyddiannus â phosibl.

Rwyf wedi mabwysiadu ymagwedd fwy traddodiadol a gofalus at fy mhrosesau mewnol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a diogelwch gwybodaeth.

Roedd fy nghofrestr risg strategol gyntaf yn nodi 7 o risgiau strategol yn ymwneud â'm dyletswyddau statudol a'r rôl y bydd fy sefydliad yn ei chwarae i helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni nodau'r Ddeddf. Bydd camau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn cael eu hymgorffori o fewn fy ngweithrediadau.

## **Archwilio mewnol**

Gwaith yr archwilwyr mewnol yw un o'r sicrwyddau allweddol a fynnaf fel Swyddog Cyfrifyddu. Rwyf wedi penodi Deloitte i weithredu fel f'archwilwyr mewnol ac maent wedi cynhyrchu'r adroddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg
- Systemau Ariannol

Nid oedd Adroddiad Blynyddol Deloitte ar gyfer 2016-17 yn rhoi barn gyffredinol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu llawn gan mai dim ond tuag at ddiwedd 2016 y rhoddwyd llawer o'r fframwaith llywodraethu a rheoli risg ar waith. Fodd bynnag, roedd Deloitte yn gallu dod i'r casgliad 'Ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, mae gan y Comisiynydd system sylfaenol gadarn o reolaeth fewnol, a ddylai ddarparu sicrwydd cymedrol ynglŷn â chyflawni amcanion y Comisiynydd'.

## **Sicrwydd Gwybodaeth**

Mae gennyf bolisi Rhyddid Gwybodaeth a diogelu data ar waith. Cyfyngir mynediad i Ddata i'r rheiny sydd â'r awdurdod priodol. Ni fu unrhyw achosion o dorri amodau data yn ystod y flwyddyn.

## **Crynodeb o effeithiolrwydd**

O'r sicrwyddau a ddarparwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli, fy ngwybodaeth i am waith fy swydd, a'r adroddiadau a ddarparwyd gan yr archwilwyr mewnol ac allanol, rwy'n gallu adrodd nad oedd y system o reolaeth fewnol a oedd ar waith ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys unrhyw wendidau arwyddocaol. Nid wyf yn gallu darparu sicrwydd fod y trefniadau hyn ar waith ar gyfer y cyfnod cyfan am y neilltuwyd llawer o'r cyfnod yn sicrhau gofod, penodi staff, cynllunio fy ngwaith a rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli risg yn eu lle.

Ar gyfer 2017-18, byddaf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu a rheoli mewnol ymhellach drwy:

- Sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a rheoli risg wedi'u hymgorffori'n llawn yn arferion gweithio fy swyddfa o ddydd i ddydd a'u bod yn gweithredu'n effeithiol trwy ddatblygu fy nghynllun gweithredol ymhellach a mynd i'r afael â'r risgiau strategol a nodwyd yn fy nghofrestr risgiau.
- Ymgorffori'r 5 dull o weithio ymhellach yn fy ngwaith a gwaith fy Swyddfa.

- Adolygu fy strwythur staff i sicrhau bod y trefniadau staffio mwyaf effeithlon ac effeithiol gennyf i gyflawni'r ystod eang o swyddogaethau

**Sophie Howe,**  
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**  
**17<sup>th</sup> Gorffennaf 2017**

## Adroddiad ar Gyflogau

### Cyflogau Uwch Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli

Penodwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 1 Chwefror 2016 a phenodwyd uwch aelodau staff eraill rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016.

Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar gyflog Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ar gyfer aelodau eraill yr Uwch Dîm Rheoli, penderfynwyd ar gyflogau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar sail canllawiau gan arbenigwyr recriwtio'r gwasanaeth sifil.

### Cyflogau Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiynydd yn cynnwys pum aelod annibynnol, wedi'u penodi gan y Comisiynydd. Caiff aelodau lwfans dyddiol o £250 ac mae'r Cadeirydd yn derbyn lwfans dyddiol o £300. Yn 2016-17, gwnaed y taliadau canlynol:

|                                | <b>1.2.16 i 31.3.17</b><br><b>(£)</b> |
|--------------------------------|---------------------------------------|
| <b>Alan Morris (Cadeirydd)</b> | 600                                   |
| <b>Jonathan Morgan</b>         | 500                                   |
| <b>John Dwight</b>             | 500                                   |
| <b>Gareth Madge</b>            | 500                                   |
| <b>Jocelyn Davies</b>          | 500                                   |
| <b>Cyfanswm</b>                | 2,600                                 |



Mae'r adrannau canlynol, sydd wedi cael eu harchwilio, yn darparu manylion cyflogau a buddion pensiwn y swyddogion uchaf yn swyddfa'r Comisiynydd:

|   | <b>Cyflog<br/>£000</b>      | <b>Buddion<br/>mewn<br/>Nwyddau (i'r<br/>£100 agosaf)</b> | <b>Buddion<br/>Pensiwn (i'r<br/>£1000 agosaf)</b> | <b>Cyfanswm<br/>£000</b>    |
|---|-----------------------------|---|---|-----------------------------|
|   | <b>1.2.16 i<br/>31 3.17</b> | <b>1.2.16 i<br/>31.3.17</b>                               | <b>1.2.16 i<br/>31.3.17</b>                       | <b>1.2.16 i<br/>31.3 17</b> |
| <b>Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016.</b>               | 100-105                     | -   | 35  | 135-140                     |
| <b>Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, o 6 Mehefin 2016.</b>                      | 30-35                       | -   | 14  | 45-50                       |
| <b>Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu, o 19 Gorffennaf 2016.</b>  | 40-45                       | -   | 16  | 55-60                       |
| <b>Marie Brousseau-Navarro – Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesedd, o 12 Medi 2016.</b> | 20-25                       | -   | 10  | 30-35                       |
| <b>Mike Palmer – Cyfarwyddwr Perfformiad a Gweithredu Polisi, o 11 Gorffennaf 2016.</b>         | 50-55                       | -   | 13  | 60-65                       |

### **Cyflogau Cyfwerth ag Amser Llawn**

Roedd cyflogau Cyfwerth ag Amser Llawn fy uwch dîm rheoli am y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:

|   | <b>Cyflogau Cyfwerth ag Amser<br/>Llawn 2016-17<br/>(£'000)</b> |
|---|---|
| <b>Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.</b>                  | 90-95   |
| <b>Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu.</b>                        | 45-50   |
| <b>Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu.</b>        | 55-60   |
| <b>Marie Brousseau-Navarro - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesedd.</b> | 45-50   |
| <b>Mike Palmer – Cyfarwyddwr Perfformiad a Gweithredu Polisi.</b>               | 65-70   |

## Cyflogau Canolrif

|  |              |
|--|--------------|
| <b>Band cyflog yr unigolyn sy'n ennill y cyflog mwyaf (£000)</b> | <b>90-95</b> |
| <b>Cyfanswm canolrif (£)</b>                                     | 43,050       |
| <b>Cymhareb</b>  | 1:2.15       |

Mae'n ofynnol i mi ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog yr unigolyn sy'n ennill y cyflog mwyaf a chyflog canolrifol cyflogeion. £90,000-95,000 oedd cyflog band yr unigolyn sy'n ennill y cyflog mwyaf yn 2016-17. Roedd hyn 2.15 gwaith yn uwch na chyflog canolrifol cyflogeion. Mae'r cyfanswm cyflogau yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

## Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

|   | <b>Cyfanswm Pensiwn Cronedig £000</b> | <b>Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn £000</b> | <b>CETV ar 31.03.16 £000</b> | <b>CETV(i) ar 31.3.17 £000</b> | <b>Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV £000</b> |
|---|---------------------------------------|---|------------------------------|--------------------------------|--|
| <b>Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016.</b>               | 0-5                                   | 0 – 2.5                                       | 3                            | 20                             | 10   |
| <b>Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, o 6 Mehefin 2016.</b>                      | 0-5                                   | 0 – 2.5                                       | 0                            | 8                              | 7  |
| <b>Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu, o 19 Gorffennaf 2016.</b>  | 0-5                                   | 0 – 2.5                                       | 0                            | 9                              | 6  |
| <b>Marie Brousseau-Navarro - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesedd, o 12 Medi 2016.</b> | 0-5                                   | 0 – 2.5                                       | 0                            | 5                              | 4  |
| <b>Mike Palmer – Cyfarwyddwr Perfformiad a Gweithredu Polisi, o 11 Gorffennaf 2016.</b>         | 35-40                                 | 0 - 2.5                                       | 683                          | 694                            | 12   |

## Cynllun Pensiwn

Caiff buddion pensiwn eu darparu trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn rhan o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (**classic, premium neu classic plus**); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir am gost y buddion ag arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn; ac er bod y rhain yn gynlluniau buddion a ddiffiniwyd, nid oes modd datgelu cyfanswm asedau a rhwymedigaethau'r cynlluniau. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus a nuvos** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion priodol diffiniedig neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' o ansawdd da, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Pennir cyfraniadau gweithwyr ar ganran o enillion pensiynadwy ar gyfer **classic, premium, classic plus a nuvos**. Mae'r buddion **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymdeol. Yn achos y **premium**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cyfuniad o'r ddau yw **classic plus** yn y bôn, gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn achos y **classic** a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos y **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn crynhoi pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae cyfrif yr aelod ar gyfer y pensiwn a enillwyd yn cael ei gredu â 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn a gronwyd ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle bo'n gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn eu gwaith ac ymdeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. Oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau **classic, premium a classic plus** a 65 yn achos aelodau **nuvos**.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk).

### (i) **Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesedig actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn trefniant cynllun arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Prif Wasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu traul eu hun. Cyfrifir CETVs o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadrann yr Actiwariaid ac nid ydynt yn rhoi sylw i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion yn sgîl Treth Lwfans Oes y gall fod angen ei thalu pan dynnir buddion pensiwn.

### (ii) **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano i bob pwrpas gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgîl chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### **Newidiadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**

O 1 Ebrill 2015, daeth cynllun pensiwn newydd, o'r enw Alpha, yn weithredol. Mae'r cynllun Alpha yn disodli'r cynlluniau **classic, premium, classic-plus** a **nuvos**. Cafodd mwyafrif y staff eu cynnwys yn uniongyrchol yng nghynllun Alpha wrth iddynt ymuno.

## Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig

a. Ar gyfer y flwyddyn, roedd y costau staff yn cynnwys y canlynol:

|   | <b>1.2.16 i<br/>31.3.17<br/>£000*</b> |       |            |
|---|---------------------------------------|-------|------------|
|   | Staff a<br>Gyflogir<br>yn Barhaol     | Arall | Cyfanswm   |
| <b>Tâl a Chyflogau</b>                                      | 337                                   | -     | 337        |
| <b>Costau Nawdd Cymdeithasol</b>                            | 156                                   | -     | 156        |
| <b>Costau Pensiwn</b>                                       | 131                                   | -     | 131        |
| <b>Is-gyfanswm</b>  | <b>624</b>                            | -     | <b>624</b> |
| <b>Secondiadau mewnol a staff asiantaeth</b>                | 185                                   | -     | 185        |
| <b>Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol</b> | -                                     | -     | -          |
| <b>Cyfanswm Costau Net</b>                                  | <b>809</b>                            | -     | <b>809</b> |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei ariannu, ond nid yw'r cyrff sy'n cyfranogi'n gallu dynodi eu cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cafwyd y prisiad actiwaraid diwethaf ar 31 Mawrth 2007 ond ers y dyddiad hwn, ataliwyd prisiadau actwaraid ar y Cynllun hyd nes i argymhellion Adolygiad Hutton gael eu rhoi ar waith. Ceir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-dal Sifil – [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer y cyfnod adrodd, roedd cyfraniadau cyflogwr o £97,469 yn daladwy i PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 16.7 y cant i 24.3 y cant o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Gosodir cyfraddau'r cyfraniadau i gwrdd â chost y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol.

Caiff cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef trefniant pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1,024 i un neu ragor o blith panel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud taliadau cyfatebol i gyfraniadau'r cyflogai hyd at 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Roedd cyfraniadau o £ddim yn daladwy i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar 31 Mawrth 2017. Caiff yr holl gyfraniadau hyn eu cynnwys yn y costau Pensiwn yn Nodyn 2a uchod.

- b. Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

|                                 | <b>1.2.16 i<br/>31.3.17<br/>£000*</b> |       |              |
|---------------------------------|---------------------------------------|-------|--------------|
|                                 | Staff a Gyflogir<br>yn Barhaol        | Arall | Cyfanswm     |
| <b>Cyflogir yn Uniongyrchol</b> | 13.55                                 | -     | 13.55        |
| <b>Cyfanswm</b>                 | <b>13.55</b>                          | -     | <b>13.55</b> |

- c. Mae nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys secondeion o sefydliadau eraill. Mae'r sefydliad, maes gwaith a'r ganran gyfwerth ag amser llawn fel a ganlyn:

| <b>Sefydliad</b>                                  | <b>Maes gwaith</b>    | <b>Cyfwerth ag<br/>amser llawn*</b> |
|---|-----------------------|-------------------------------------|
| <b>Comisiynydd Plant Cymru</b>                    | Cymorth Busnes/Polisi | 0.63                                |
| <b>Renewable Cymru</b>                            | Polisi                | 0.86                                |
| <b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</b> | Polisi                | 0.18                                |
| <b>Heddlu De Cymru</b>                            | Polisi                | 0.86                                |
| <b>Llywodraeth Cymru</b>                          | Cymorth Busnes/Polisi | 1.71                                |
| <b>Cyfanswm</b>                                   |                       | <b>4.24</b>                         |

## **Adroddiadau ar Gynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil a Chynlluniau lawndal Eraill – Pecynnau Ymadael**

Yn ystod y cyfnod, ni thalwyd iawndal i unrhyw aelod o staff.

Telir costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a luniwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir y costau ymadael yn llawn ym mlwyddyn yr ymadawiad. Lle bo'r Comisiynydd wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir am y costau ychwanegol gan y Comisiynydd, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir am gostau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Codir costau llawn yr ymadawiad ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn gwneud y penderfyniad. Credydir y symiau sy'n daladwy mewn blynyddoedd i ddod i ddarpariaeth a ddefnyddir pan wneir y taliadau.

**Sophie Howe**  
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**  
**17<sup>th</sup> Gorffennaf 2017**

## **Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 o dan baragraff 21 (2) atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Maent yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a gyflwynwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cyflogau y mae'r adroddiad hwnnw'n nodi ei bod wedi cael ei harchwilio.

### **Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed yno ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol, ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod yn cydymffurfio â Safonau Moeseg y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol ar gyfer amgylchiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gasglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf hefyd yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn anghywir yn ei hanfod ar sail, neu'n anghyson yn ei hanfod â'r wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth



gynnal yr archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

### **Barn ar y Datganiadau Ariannol**

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa fusnes Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 31 Mawrth 2017 ac o'i wariant net, am y cyfnod 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### **Barn am Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### **Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'i paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### **Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad ag arweiniad Gweinidogion Cymru;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cyflogau i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu

- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
18<sup>th</sup> Gorffennaf 2017

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

## Datganiadau Ariannol

| Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 |                       |                       |
|---|-----------------------|-----------------------|
|   |                       | 1.2.16 hyd at 31.3.17 |
| <b>Gwariant</b>   | Nodyn                 | £000                  |
| <b>Costau gweinyddol:</b>   |                       |                       |
| <b>Costau Staff</b>   | Adroddiad<br>Cyflogau | 809                   |
| <b>Dibrisiant</b>   | 2                     | 6                     |
| <b>Costau Gweinyddol Eraill</b>   | 2                     | 287                   |
|   |                       | 1,102                 |
| <b>Incwm</b>  |                       |                       |
| <b>Incwm o Weithgareddau</b>  |                       | -                     |
| <b>Incwm Arall</b>  |                       | -                     |
|   |                       | -                     |
| <b>Gwariant Net</b>   |                       | 1,102                 |
| <b>Llog taladwy/derbyniadwy</b>   |                       | -                     |
| <b>Gwariant Net ar ôl llog</b>  |                       | 1,102                 |

| Gwariant Cynhwysfawr Arall                                      |       |         |
|---|-------|---------|
|   |       | 2016-17 |
|   | Nodyn | £000    |
| <b>Elw/(colled) net ar ailbriso Peiriannau a Chyfarpar</b>      |       | -       |
| <b>Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer cyfnod y flwyddyn</b> |       | 1,102   |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 53 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn*

| <b>Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol<br/>ar 31 Mawrth 2017</b> |       |             |  |       |
|--|-------|-------------|--|-------|
|  |       | <b>2017</b> |  |       |
|  | Nodyn | £000        |  | £000  |
| <b>Asedau anghyfredol:</b>                                   |       |             |  |       |
| <b>Eiddo, peiriannau a chyfarpar</b>                         | 4     |             |  | 11    |
| <b>Asedau cyfredol:</b>                                      |       |             |  |       |
| <b>Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy</b>             | 5     | 23          |  |       |
| <b>Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod</b>          | 6     | 607         |  | 630   |
|  |       |             |  |       |
| <b>Cyfanswm asedau</b>                                       |       |             |  | 641   |
| <b>Rhwymedigaethau cyfredol:</b>                             |       |             |  |       |
| <b>Masnach a symiau taladwy eraill</b>                       | 7     | (187)       |  | (187) |
|  |       |             |  |       |
| <b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>         |       |             |  | 454   |
|  |       |             |  |       |
| <b>Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau</b>         |       |             |  | 454   |
|  |       |             |  |       |
| <b>Ecwiti trethdalwyr:</b>                                   |       |             |  |       |
|  |       |             |  |       |
| <b>Cronfa gyffredinol</b>                                    |       |             |  | 454   |

**Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu**  
17<sup>th</sup> Gorffennaf 2017

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 53 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn*

| <b>Datganiad o Lifoedd Arian ar gyfer y cyfnod<br/>1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017</b> |                           |                          |
|--|---------------------------|--------------------------|
|  |                           | 1.2.16 hyd<br>at 31.3.17 |
|  | Nodyn                     | £000                     |
| <b>Lifoedd arian o weithgareddau gweithredu</b>  |                           |                          |
| <b>Gwariant Net</b>  | Adroddiad<br>Cyflogau a 2 | (1,102)                  |
| <b>Addasiad ar gyfer trafodion nad ydynt yn cynnwys arian<br/>parod</b>                      | 2                         | 6                        |
| <b>Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n<br/>dderbyniadwy</b>               | 5                         | (23)                     |
| <b>(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach sy'n daladwy</b>                                 | 7                         | 187                      |
| <b>All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu</b>                                    |                           | (932)                    |
| <b>Lifoedd arian o weithgareddau buddsoddi</b>   |                           |                          |
| <b>Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar</b>   | 4                         | (17)                     |
| <b>All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi</b>                                     |                           | (17)                     |
| <b>All-lif arian parod net</b>   |                           | (949)                    |
| <b>Lifoedd arian o weithgareddau ariannu</b>   |                           |                          |
| <b>Ariannu Net</b>   |                           | 1,556                    |
| <b>Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau<br/>cyfwerth ag arian parod</b>        | 6                         | 607                      |
| <b>Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r<br/>cyfnod</b>                 |                           | -                        |
| <b>Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y<br/>cyfnod</b>                  |                           | 607                      |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 53 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn*

| <b>Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017</b> |       |                                    |
|--|-------|------------------------------------|
|  | Nodyn | <b>Cronfa Gyffredinol<br/>£000</b> |
| <b>Balans ar 1 Chwefror 2016</b>   |       | -                                  |
|  |       | -                                  |
| <b>Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2016-2017</b>   |       |                                    |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru  |       | 1,556                              |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn   |       | (1,102)                            |
| <b>Balans ar 31 Mawrth 2017</b>  |       | <b>454</b>                         |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 53 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn*

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu cyntaf i'r Comisiynydd o 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2017. Nid oes unrhyw ffigurau cymharol. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiynydd, at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Rydym wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto ar waith ac sydd heb eu mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) IFRS16 Prydlesi, mae'r Comisiynydd yn disgwyl na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Ar hyn o bryd, nid oes modd amcangyfrif yn rhesymol beth fydd effaith IFRS16, sydd wedi'i gyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ond sydd heb ei fabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd eto ac a fydd yn gymwys o 2019-20.

Disgrifir y polisiau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru isod.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol gan fod y Comisiynydd yn barnu mai dibwys yw effaith ailbriso asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

### 1.2 Cyllido

Yr unig ffynhonnell gyllid ar gyfer y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru trwy grant blynyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae'r Comisiynydd wedi prasio'r holl asedau anghyfredol yn ôl eu cost hanesyddol (gweler 1.1. uchod). Y lefel isaf ar gyfer cyfalafiad asedau unigol yw £1,000. Grwpwyd niferoedd mawr o'r un math o asedau gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

#### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau anghyfredol trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, fel a ganlyn:

- Offer TG 3 blynedd

Codir am ddibrisiant blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.

#### 1.5 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredu yw hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu y Comisiynydd. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar sail cost lawn. Dosberthir pob gwariant fel gwariant gweinyddu.

#### 1.6 Treth ar Werth

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i chofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau sefydlog gyda TAW wedi'i gynnwys, gan na ellir adfer TAW.

#### 1.7 Pensiynau

Mae staff y Comisiynydd wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn cael mantais o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronol i'r PCSPS. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb ar y PCSPS. O ran elfennau cyfraniad diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu talu.



## 1.8 Prydlesi

Dosberthir prydlesi asedau yn brydlesi cyllid pan fydd holl risgiau a manteision perchenogaeth ar ased wedi'i phrydlesi yn cael eu hysgwyddo'n sylweddol gan y Comisiynydd. Cofnodir yr ased fel ased sefydlog ddiriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o isafswm y taliadau prydles. Codir y taliadau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chodir tâl cyllid ar sail y gyfradd llog sy'n ddealedig yn y brydles.

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

## 1.9 Adroddiadau Segmentol

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru a dim ond un segment sydd ganddi.

## 1.10 Treuliau Staff

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr a ddigolledir, fel gwyliau blynyddol heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.

## 1.11 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu contractiol y mae eu hamseru neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

## 1.12 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae'r Comisiynydd yn cadw arian parod, sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth wrth ei dderbyn. Nid yw'r Comisiynydd yn cadw unrhyw arian mân.

## 2. Costau Gweinyddol Eraill

|  | 1.2.16 hyd at<br>31.3.17 |      |
|--|--------------------------|------|
|  | £000                     | £000 |
| <b>2.1 Costau gweinyddol:</b>            |                          |      |
| Eiddo                                    | 24                       |      |
| Swyddfa                                  | 95                       |      |
| Hyfforddi a recriwtio                    | 8                        |      |
| Teithio a chynhaliaeth                   | 27                       |      |
| Taliad cydnabyddiaeth archwilydd allanol | 17                       |      |
| Taliad cydnabyddiaeth archwilydd mewnol  | 9                        |      |
| Offer TGCh                               | 25                       |      |
| Gwaith prosiect                          | 82                       |      |
|  |                          | 287  |
| <b>2.2 Eitemau heblaw arian parod:</b>   |                          |      |
| - tâl dibrisiant asedau cyffredin        | 6                        |      |
| - colled gwaredu asedau sefydlog         | -                        |      |
|  |                          | 6    |
|  |                          | 293  |

## 3. Gwybodaeth Segmentol

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Barn y Comisiynydd, felly, yw mai mewn un segment yn unig y mae ei swyddfa'n gweithredu, fel yr adroddwyd.

#### 4. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

|  | Offer TGCh |  |
|--|------------|--|
|  | £000       |  |
| Cost                                       |            |  |
| <b>Ar 1 Chwefror 2016</b>                  | -          |  |
| <b>Ychwanegiadau</b>                       | 17         |  |
| <b>Gwarediadau</b>                         | -          |  |
| <b>Ar 31 Mawrth 2017</b>                   | 17         |  |
| <b>Dibrisiant</b>                          |            |  |
| <b>Ar 1 Chwefror 2016</b>                  | -          |  |
| <b>Codwyd yn y flwyddyn</b>                | 6          |  |
| <b>Gwarediadau</b>                         | -          |  |
| <b>Ar 31 Mawrth 2017</b>                   | 6          |  |
| <b>Gwerth llyfr net ar 1 Chwefror 2016</b> | -          |  |
| <b>Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017</b>  | 11         |  |
| <b>Cyllido asedau:</b>                     |            |  |
| <b>Perchen</b>                             |            |  |
| <b>Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017</b>  | 11         |  |
| <b>Perchen</b>                             |            |  |
| <b>Gwerth llyfr net ar 1 Chwefror 2016</b> | -          |  |

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Comisiynydd, nid oes unrhyw asedau'n cael eu cyllido trwy brydles arian.

Derbyniodd y Comisiynydd nifer o asedau gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r trefniadau sefydlu ar gyfer ei swyddfa. Darparwyd yr asedau hyn i'r Comisiynydd heb unrhyw gost ac aseswyd mai gwerth llyfr net yr asedau hyn yw dim.

#### 5. Symiau Masnach Derbyniadwy ac Asedau Cyfredol Eraill

|   | 31.3.17   |
|---|-----------|
|   | £000      |
| <b>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:</b>                  |           |
| <b>Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill</b> | -         |
| <b>Rhagdaliadau ac incwm cronedig</b>                         | 23        |
|   | <b>23</b> |

## 6. Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

|  | 31.3.17 |
|--|---------|
|  | £000    |
| Balans ar 1 Chwefror 2016  | -       |
| Newid net yn y balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod                                   | 607     |
| Balans ar 31 Mawrth 2017   | 607     |
| Roedd yr holl falansau ar 31 Mawrth 2017 wedi'u cadw mewn cyfrif yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. |         |

## 7. Symiau Masnach sy'n Daladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol Eraill

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 31.3.17 |
|--------------------------------------|---------|
|                                      | £000    |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol       | -       |
| Symiau masnach sy'n daladwy          | 37      |
| Croniadau                            | 150     |
|                                      | 187     |

## 8. Ymrwymadau o dan Brydlesi

8.1 Mae'r Comisiynydd yn is-brydlesu llawr gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 5-7 Siambrau'r Farchnad, Caerdydd. Daw cyfnod y brydles i ben ar 10 Rhagfyr 2018. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud taliadau o £54,182 erbyn diwedd yr isbrydles; a £33,689 mewn perthynas â chostau gwasanaethau.

8.2 Mae cytundeb prydles gan y Comisiynydd ar gyfer darparu llungopiwr, ac mae'n brydles bum mlynedd, yn dod i ben ar 14 Tachwedd 2021. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud taliadau o £2,851 erbyn diwedd y brydles.

## 9. Offerynnau Ariannol

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn mynnu datgelu'r rôl a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol gweithgareddau'r Comisiynydd, a'r modd y cyllidir ei gweithrediadau, nid yw ei swyddfa'n agored i'r lefel o risg ariannol y mae endidau busnes yn ei hwynebu. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt. Mae gan y Comisiynydd bwerau cyfyngedig iawn i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill a chynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan

weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'u dal i newid y risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

#### Risg Hylifedd

Ariannir gofynion y Comisiynydd o ran refeniw net ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Nid yw ei swyddfa felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

#### Risg Cyfradd Llog

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn agored i risgiau cyfradd llog.

#### Risg Arian Tramor

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn agored i risgiau arian tramor.

#### Gwerthoedd Teg

Nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng llyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2017.

### **10. Ymrwymadau Cyfalaf**

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2017.

### **11. Rhwymedigaethau Amodol**

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2017.

## **12. Trafodion Partïon Cysylltiedig**

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, a derbyniodd y Comisiynydd ei hunig ffynhonnell gyllido oddi wrth Lywodraeth Cymru (£1.556 miliwn) yn ystod y cyfnod. Mae gwaith cyflogres y Comisiynydd wedi'i roi i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a bu nifer fach o drafodion pwysig yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â gweithredu'r gyflogres a phensiynau, gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Swyddfa'r Cabinet.

Ni chafwyd trafodion o bwys gyda sefydliadau lle'r oedd gan uwch aelodau staff, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, swyddi dylanwadol.

## **13. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol a'r dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn.

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 18 Gorffennaf 2017 gan Sophie Howe